# Effaith defnydd technegau iaith ddwyieithog (Cymraeg-Saesneg) ar ddealltwriaeth a hygyrchedd gwybodaeth gyfreithiol wedi ei asesu drwy brofion amlddewis.

Lois Nash, Y Gyfraith, Prifysgol Bangor - lsn19vrj@bangor.ac.uk

COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

## Cyflwyniad

Mae profion amlddewis yn fwy poblogaidd ym maes y Gyfraith oherwydd newidiadau yn y ffordd o gymhwyso fel cyfreithiwr. Rhaid i ddarpar gyfreithwyr gwblhau dau arholiad, un ohonynt yn gwbl amlddewis. Mae'r prawf ar gael yn Gymraeg neu yn Saesneg. Yng Nghymru mae'r mwyafrif o'r addysg gyfreithiol yn Saesneg, heblaw am rhai modiwlau Cymraeg.

## Amcanion


Ar gyfer myfyrwyr sydd yn siarad Cymraeg a chyflawni rhan o'u graddau yn Gymraeg, darganfod sut fyddai'r ffordd orau o sicrhau eu bod yn deall cynnwys a medru ateb cwestiynau amlddewis cyfreithiol mewn tiwtorialau yn dilyn darlithoedd Saesneg yn unig. Ac i wneud hyn er mwyn annog cyfraniad a hyder yn y myfyrwyr.

## Methodoleg


Cwblhawyd holiadur gan bedwar myfyriwr Cymraeg mewn grŵp tiwtorial Cyfraith Trosedd i werthuso technegau iaith mewn profion amlddewis. Defnyddiwyd dull meintiol ac ansoddol. Roedd tri dull iaith wedi'u cymharu. Rhan o'r ymchwil oedd ddamcaniaethol, gydag ymatebion myfyrwyr yn ddienw. Nid oedd y profion yn cyfrif tuag at y marc terfynol. Roedd y dull iaith gyntaf yn darparu cwestiwn Cymraeg gyda chyfieithiad Saesneg yn ei ddilyn. Roedd yr ail ddull yn darparu'r cwestiwn i gyd yn Gymraeg ac yna copi Saesneg ar wahân. Yna, roedd y trydydd dull yn darparu cwestiwn Cymraeg gyda'r prif dermau wedi eu cyfieithu mewn cromfachau.

## Dadansoddiad

Gofynnwyd i fyfyrwyr sgorio mewn dau set o gwestiynau, y cyntaf am ba mor hygyrch yw'r dulliau ac yna pa mor ddealladwy yw'r cynnwys. Roedd hyn yn ddibynnol ar brofiadau'r myfyrwyr yn bersonol oedd felly yn adlewyrchu sgiliau Cymraeg o allu a hyder gwahanol. Cafwyd hefyd cyfle i fyfyrwyr ysgrifennu sylwadau am y dulliau a hefyd am eu profiad yn gyfan gwbl. Gweler y graffiau am data a dolenni am wybodaeth pellach.




O fyfyrwyr oedd yn ffafrio dull 2 ar y cyfan, gyda 25% yn ffafrio dull 1.




Dengys dewisiadau pob myfyriwr ar gyfer pob dull yn eu tro.

## Darganfyddiadau

- Sampl fach, nid pawb yn y grŵp wnaeth gwblhau'r holiadur.
- Data yn amrywiol iawn.
- Sylwadau diddorol yn awgrymu yn gryf bod myfyrwyr yn ffafrio cael y Gymraeg a'r Saesneg hefo'i gilydd oherwydd eu bod yn dilyn darlithoedd Saesneg.
- Ydy hyn yn awgrymu bod myfyrwyr yn darllen y cwestiwn yn Gymraeg ac yna yn cadarnhau, yntau eu bod yn darllen yn Saesneg ond ateb ar y copi Cymraeg?
- Dull 2 wnaeth sgorio uchaf ar gyfer hygyrchedd a bod yn ddealladwy.
- Ymchwil pellach yn angenrheidiol i weld os oes defnydd o'r cwestiynau amlddewis Cymraeg.

## Casgliad

Er bod maint y sampl yn fach, mae canlyniadau cadarnhaol yn dangos ffafriaeth y myfyrwyr tuag at ddull 2.
Bydd y wybodaeth yn cael ei ddefnyddio i wellau ymarfer dysgu mewn tiwtorialau tebyg yn y dyfodol ac yn sail dda ar gyfer ymchwil fwy eang yn y dyfodol.

## Dolenni

Holiadur dosbarthwyd:

Sylwadau myfyrwyr:

**Unrhyw adborth?** lsn19vrj@bangor.ac.uk